

Pembrolizumab ar gyfer trin lymffoma Hodgkin clasurol atglafychol neu anhydrin

03 Medi 2018

Nid yw Pembrolizumab ar gael fel arfer i drin lymffoma Hodgkin clasurol atglafychol neu anhydrin mewn oedolion sydd eisoes wedi cael y canlynol:

- trawsblaniad bôn-gelloedd gan ddefnyddio eu celloedd eu hunain (trawsblaniad bôn-gelloedd o'r un unigolyn) a
- brentuximab vedotin.

Dylai eich meddyg siarad â chi am yr opsiynau triniaeth eraill. Os ydych eisoes yn cymryd pembrolizumab, dylech allu parhau i'w gymryd nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Ym mis **Mai 2024**, gwnaethom gyhoeddi [canllaw 967 NICE ar arfarnu technoleg](#). Mae'n argymhell pembrolizumab i drin lymffoma Hodgkin clasurol atglafychol neu anhydrin mewn pobl 3 blwydd oed a throsodd sydd wedi cael brentuximab vedotin ond na allant gael trawsblaniad bôn-gelloedd o'r un unigolyn.

Gwybodaeth a chymorth

Gall [tudalen we y GIG ar Lymffoma Hodgkin](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Cymdeithas Lymffoma](#), 0808 808 5555
- [GOFAL Lewcemia](#), 08088 010 444
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000
- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm [Healthwatch](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to [Notice of rights](#).

ISBN: 978-1-4731-9500-4